Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Cod Ymddygiad Lleol

# Hysbysiadau Cosb Benodedig

# 2021-2024

*Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais*

**CYNNWYS:**


**Tudalen**

1. SAIL GYFREITHIOL A RHESYMEG ........................................ **3**
2. POLISI A CHYHOEDDUSRWYDD ........................................ **4**
3. PWY ALL GYFLWYNO HYSBYSIAD COSB BENODEDIG ........................................ **4**
4. AMGYLCHIADAU CYFLWYNO HYSBYSIAD COSB BENODEDIG........................................ **4**
5. GALL HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG GAEL EU HYSTYRIED YN ADDAS PAN.... **4**
6. GWEITHDREFN AR GYFER CYFLWYNO HYSBYSIAD COSB BENODEDIG .............. **5**
7. YMARFEROLDEB CYFREITHIOL........................................ **5**
8. MONITRO AC ADOLYGU ........................................ **5**
9. TYNNU HYSBYSIAD COSB BENODEDIG YN ÔL........................................ **5**
10. HAWLIAU I APELIO........................................ **6**
11. TALU AM HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG........................................ **6**
12. CYFLEOEDD CYFARTAL-........................................ **6**
13. SUT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH ........................................ **6**
14. SIART LIF COSB BENODEDIG ........................................ **7**

## 1.0 Sylfaen Gyfreithiol a Rhesymeg

1.1 Mae deddfwriaeth newydd wedi rhoi pŵer i swyddogion dynodedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) i rieni plant a phobl ifanc sy'n absennol, hen ganiatâd o ysgol a/neu unedau cyfieirio disgyblion (UCD.) Bydd cyflwyno HCB yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA) mewn ymateb i geisiadau a wneir gan benaethiaid a'u dirprwyon dynodedig.

1.2 Mae presenoldeb cyson a phrydlon disgyblion mewn ysgolion a/neu UCD yn ofyniad cyfreithiol ac angenrheidiol er mwyn i ddisgyblion wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgiadol sydd ar gael iddynt. Mae rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion yn cael eu cefnogi yn yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol i oresgyn problemau sy'n rhwystr i bresenoldeb cyson trwy amrywiaeth o strategaethau asesu ac ymyrraeth a bydd cosbau ond yn cael eu defnyddio pan na fydd rhieni'n cydweithredu neu'n analluog i ddatrys y broblem sydd o dan sylw. Mae hysbysiadau cosb benodedig yn ffordd ychwanegol o orfodi presenoldeb lle bo disgwyliad rhesymol y bydd y defnydd ohono'n sicrhau gwelliant cyn i'r arferiad ymwreiddio gan leihau'r angen ar gyfer erlyniadau maith a chostus.

1.3 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli gweithredu'r HCB yn cael ei hamlinellu yn y canlynol:

- Adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Arolygon 2006;
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013;
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn (yr Hawl i Addysg.)
- Canllawiau Llywodraeth Cymru (LlC);
- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.

1.4 Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddatblygu'r Cod Ymddygiad y bydd pob partner yn ei weithredu ac fel rhan o'r cyfrifoldebau statudol er mwyn sicrhau presenoldeb yn yr ysgol, mae'n addas y bydd y GLlA yn darparu'r cyfrifoldeb hwn ar ran yr awdurdod lleol.

1.5 Mae Adran 7, Deddf Addysg 1996 yn nodi y bydd:
"Rhiant pob plentyn o oed ysgol orfodol yn sicrhau y bydd yn derbyn addysg effeithiol, llawn amser sy'n addas ar gyfer ei oed, gallu a dawn ac ar gyfer unrhyw anghenion addysgol allai fod ganddo, naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall."

1.6 Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon neu ddarpariaeth amgen yn ofyniad cyfreithlon ac mae'n angenrheidiol er mwyn galluogi plant i wneud y mwyaf o'u cyraeddiadau addysgol a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

1.7 Mae tystiolaeth yn dangos fod plant sydd â phresenoldeb gwael yn annhebygol o lwyddo'n academaidd a'u bod yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gadael yr ysgol.

1.6 Mae Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn drosedd i riant fethu â sicrhau presenoldeb ei blentyn yn yr ysgol lle y mae wedi ei gofrestru a lle nad yw absenoldeb wedi ei ganiatáu.

## 2.0 Polisi a Chyhoeddusrwydd

2.1 Mae'n orfodol i Benaethiaid farnu awdurdodi absenoldeb a'r codau dilynol (Codau presenoldeb ar gyfer Cymru gyfan 2010) a chategoreiddio'r rheswm dros yr absenoldeb. Mae'n ofynnol i bob ysgol gael polisïau presenoldeb sy'n amlinellu'n glir y gweithdrefnau dyddiol sydd yn eu lle i olrhain absenoldeb disgybl a sut y byddant yn penderfynu os ellir cyfiawnhau absenoldeb ai peidio.

## 3.0 Pwy all gyflwyno hysbysiad cosb benodedig

3.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i benaethiaid a'r heddlu (gan gynnwys eu dirprwyo dynodedig) yn ogystal â swyddogion dynodedig yr awdurdod lleol (SLlA) bwerau i gyflwyno HCB. Fodd bynnag, er mwyn rhwystro dyblygu hysbysiadau cosb benodedig, bydd rheoli a threfniadau prosesu yn y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r GLlA. Bydd y Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ac yn ymgynghori ag ysgolion a swyddogion lleol yr heddlu er mwyn sicrhau:

- Fod hysbysiadau'n cael eu defnyddio'n gyson;
- Na fydd hysbysiadau'n cael eu cyflwyno pan fydd trafodion o dan adran 444 (1) neu (1A) yn cael eu hystyried neu wedi dechrau;
- Nad yw perthnasau rhwng ysgolion a theuluoedd yn cael eu cyfaddawdu;
- Nad oes unrhyw wrthdaro gydag unrhyw ymyriad arall sydd yn ei le.

## 4.0 Amgylchiadau cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig

4.1 Bydd Penaethiaid, eu Dirprwyon dynodedig a'r Uwch Swyddog Lles Addysg yn ystyried y canlynol wrth benderfynu a ddylid cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig:

- Lefel yr absenoldeb;
- Ystyriaeth i Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Hanes materion presenoldeb a'r gweithredu a gafwyd;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru (LlC;)
- Effeithiolrwydd tebygol Hysbysiad Cosb Benodedig fel dull i sicrhau cydymffurfiad;
- Lefel ymgysylltiad/cydweithrediad y rhiant;
- Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig.

## 5.0 Gall hysbysiadau cosb benodedig gael eu hystyried yn addas pan:

- Fydd o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) wedi eu colli yn sgil **unrhyw** absenoldeb nad yw wedi eu caniatáu yn ystod y tymor cyfredol; (gallai hyn gynnwys gwyliau a gymerir yn ystod y tymor. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn ddiwrnodau dilynol;)
- Cyrraedd yn hwyr i'r ysgol yn gyson, h.y wedi i'r gofrestr gau yn ystod y tymor cyfredol. Mae 'cyson' yn golygu cyrraedd yn hwyr ar gyfer o leiaf 10 sesiwn;
- Fydd rhieni/gwarcheidwaid wedi methu ag ymgysylltu gyda'r ysgol a/neu bydd y GLlA wedi ceisio gwella presenoldeb neu le na fydd cosbau'r llys wedi cael eu gweithredu;
- Fydd disgybl yn dod i sylw'r heddlu'n gyson yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol hen reswm dilys.

## 6.0 Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb benodedig

6.1 Bydd y GLlA yn ymateb i bob cais i gyflwyno HCB oddi fewn 10 diwrnod ysgol o dderbyn y cais ac unwaith y byddant yn fodlon fod y meini prawf perthnasol wedi eu diwallu:

- Anfon rhybudd ysgrifenedig ffurfiol at y rhiant/gwarcheidwad yn eu hysbysu y gallant dderbyn hysbysiad cosb benodedig a pham;
- Gosod cyfnod o 15 diwrnod lle na all y disgybl fod yn absennol heb ganiatâd o'r ysgol;
- Os, wedi'r cyfnod o 15 diwrnod nad oes gwelliant bydd hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gyflwyno a'i anfon trwy'r post dosbarth cyntaf;
- Os oes gwelliant presenoldeb a dim absenoldebau heb ganiatâd, ni fydd yr hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gyflwyno;
  *Nodwch le bydd ysgol yn gwneud cais i gyflwyno HCB ar gyfer absenoldeb gwyliau na chafodd ei awdurdodi, ni fydd y cyfnod rhybudd o 15 diwrnod ar gyfer gwelliant yn berthnasol;*
- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gyfer y nifer o weithiau y gall hysbysiad rhybudd gael ei gyflwyno.
- Bydd yr ALl yn cyflwyno HCB i riant/gwarcheidwad yn ôl disgresiwn y Pennaeth.

## 7.0 Ymarferoldeb Cyfreithiol

7.1 Mae HCB yn £60.00 os telir ef oddi fewn cyfnod o 28 diwrnod, wedi i'r hysbysiad gael ei dderbyn. Bydd yn codi i £120.00 os telir ef ar ôl 28 diwrnod (ond oddi fewn 42 diwrnod o'i dderbyn.) os na fydd yr HCB yn cael ei dalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol:

- Erlyn rhieni/gwarcheidwaid o dan Adran 444(1) a 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996 am fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd mewn ysgol neu;
- Dynnu'r HCB yn ôl (mewn amgylchiadau cyfyngedig fel yr amlinellir yn y Cod Ymddygiad hwn.)
- Dylid nodi y gall mwy nag un HCB gael eu cyflwyno yn ystod blwyddyn academaidd.

## 8.0 Monitro ac Adolygu

8.1 Bydd pob Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael eu rhoi ar fas data sy'n cael ei gadw gan y GLlA er mwyn sicrhau nad oes Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu dyblygu ac i werthuso effeithiolrwydd y broses oddi fewn i'r Fwrdeistref.

## 9.0 Tynnu Hysbysiad Cosb Benodedig yn Ôl

9.1 Wedi iddo gael ei gyflwyno, yr unig reswm gall Hysbysiad Cosb Benodedig gael ei dynnu yn ôl fydd;

- Os oes tystiolaeth i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i'r person/cyfeiriad anghywir;
- Nad yw'r hysbysiad yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn;
- Fod y dystiolaeth yn arddangos na ddylai'r Hysbysiad Cosb Benodedig fod wedi cael ei gyhoeddi e.e tystiolaeth feddygol (mae gan rieni/gwarcheidwaid 15 diwrnod i gyflwyno'r dystiolaeth hon.)
- Bydd Hysbysiad fod y gosb wedi cael ei thynnu yn ôl yn cael ei chyflwyno i'r rhiant/gwarcheidwad.

## 10.0 Hawliau i apelio

10.0 Nid oes unrhyw hawl statudol i apelio ond pan fydd rhiant yn herio cyflwyniad Hysbysiad Cosb Benodedig, gallant gyflwyno unrhyw gwynion i'r GLlA a/neu wynebu achos yn Llys yr Ynadon o dan adran 444 (1) o Ddeddf Addysg 1996.

## 11.0 Talu Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB)

- Ceir manylion ar gyfer taliad ar yr Hysbysiad Cosb Benodedig.
- Mae talu'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhyddhau atebolrwydd y rhiant ar gyfer y cyfnod dan sylw ac ni all, o ganlyniad gael ei erlyn gan unrhyw bwerau gorfodol eraill (adran 444 (1)) ar gyfer y cyfnod y cyfeirir ato yn yr Hysbysiad Cosb Benodedig.
- Gellir gwneud taliad mewn rhandaliadau os yw'r Awdurdod Lleol yn awdurdodi hynny.
- Bydd Lles Addysg yn cadw unrhyw refeniw a wneir o Hysbysiadau Cosb Benodedig, ei gadw ar wahân a'i ddefnyddio i dalu am gostau gorfodi h.y. costau sy'n gysylltiedig â'r cyflwyniad, casgliad neu'r erlyniad pe na bai'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei dalu.

## 12.0 Cyfleoedd Cyfartal

12.1 Mae'n rhaid i gyflwyniad Hysbysiadau Cosb Benodedig gydymffurfio â deddfwriaethau eraill tebyg i'r Ddeddf Hawliau Dynol a phob deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Chyfleoedd cyfartal er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd sy'n deg a chyson.

## 13.0 Sut i gael gwybodaeth bellach

13.1 Mae gwybodaeth bellach am y modd y gweithredir y Cod Ymddygiad hwn ac HCB ar gael gan:

Y Gwasanaeth Lles Addysg
Yr Adran Ysgolion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Ffôn: 01685 724607
E-bost: education.welfareteam@merthyr.gov.uk

### 14.0 Siart Lif Hysbysiad Cosb Benodedig

